

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil: 2023/24

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

1. Cyflwyniad a Chefnidir

- 1.1 Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn gwbl ymrwymedig i gefnogi'r lefelau uchaf o uniondeb ymchwil a llywodraethu yn ei holl weithgarwch ymchwil. Fel un sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, mae Met Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ei staff a'i fyfyrwyr yn cynnal safonau rhagorol o ymarfer academiaidd, uniondeb a gonestrwydd ym mhob agwedd ar ymchwil.
- 1.2 Fel llofnodwr i'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal yr ymrwymadau sydd ynddo. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau yn cael eu cynnal i gefnogi safonau uchel o uniondeb ymchwil, mae'r Concordat yn argymhell bod cyflogwyr ymchwilwyr yn cyflwyno datganiad blynyddol byr i'w corff llywodraethu eu hunain sy'n:
- Darparu crynodeb o gamau gweithredu a gweithgareddau a gynhaliwyd i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth a chymhwyso materion uniondeb ymchwil.
 - Yn darparu sicrwydd bod y prosesau sydd ganddynt ar waith ar gyfer delio â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn gadarn, yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad.
 - Yn darparu datganiad lefel uchel ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol o gamymddwyn ymchwil sydd wedi cael eu cynnal.
- 1.3 Dyma seithfed datganiad blynyddol y Brifysgol ar Uniondeb Ymchwil ac mae'n ymwneud â blwyddyn academiaidd 2023/24. Mae gwybodaeth fanwl ynglŷn ag ymagwedd gyffredinol y Brifysgol tuag at uniondeb ymchwil a chamymddwyn ymchwil wedi'i chynnwys o fewn Datganiad Blynyddol cyntaf y Brifysgol a gyhoeddwyd yn 2018 ac ar gael drwy wefan Met Caerdydd.¹
- 1.4 Fel yr argymhellir gan y Concordat, bydd y datganiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

2. Crynodeb o gamau gweithredu a gweithgareddau a wnaed i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth a chymhwyso materion uniondeb ymchwil

- 2.1 Mae uniondeb ymchwil wedi parhau i fod yn ffocws allweddol i'r Brifysgol yn y flwyddyn academiaidd 2023/24. Gweithgareddau penodol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yw:
- Gwaith i ddatblygu ffurflen gais moeseg ar-lein wedi parhau eleni ac mae bellach yn cyrraedd ei gamau olaf.

¹ <https://www.cardiffmet.ac.uk/research/Pages/Research-Integrity-and-Governance.aspx>

- Datblygwyd rhaglen waith gyda'r bwriad o wella hyfforddiant a datblygu staff sy'n gysylltiedig â moeseg. Bydd hyn yn cynnwys gwelliannau i'r adnodd moeseg a llywodraethu mewnol ar-lein.
- Mae gwybodaeth well yn ymwneud ag ymgymryd ag ymchwil gyda chyfranogwyr o dan 18 oed wedi cael ei llunio. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni caniatâd enghreifftiol i'w defnyddio gyda phlant iau a hŷn.
- Cafodd y Polisi ar Waith sy'n ymwneud ag Anifeiliaid o Ddeunydd Anifeiliaid ei adolygu a'i ddiweddarau ac fe'i cymeradwywyd wedyn am dair blynedd arall.
- Mae'r gwaith yn parhau i wella'r cymorth a ddarperir i staff sy'n gofyn am nawdd gan y Sefydliad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gynhelir mewn cyfleusterau'r GIG neu'n defnyddio adnoddau'r GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae system newydd yn cael ei datblygu a gaiff ei chyflwyno yn 2024/25.
- Mae'r defnydd o adnoddau a ddarperir gan UKRIO fel rhan o'n tanysgrifiad sefydliadol wedi parhau i dyfu eleni. Yn arwyddocaol, mae dros 120 o unigolion wedi cofrestru ar y modiwl e-ddysgu peilot, *Cyflwyniad i Uniondeb Ymchwil*.

3. Prosesau ar waith ar gyfer delio â honiadau o gamymddwyn

- 3.1 Adolygwyd Polisi'r Brifysgol ar Gamymddwyn Ymchwil a'i ddiweddarau a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi ym mis Rhagfyr 2021.
- 3.2 Mae'r broses ar gyfer ymchwilio i honiadau o gamymddwyn ymchwil ym Met Caerdydd yn parhau i fod yn broses dau gam:
- CAM 1: Gwneir honiadau o gamymddwyn ymchwil yn ysgrifenedig at y Cyfarwyddwr Ymchwil (DoR) a fydd yn cynnal ymchwiliad cychwynnol i ganfod a oes achos prima facie o gamymddwyn yn bodoli. Lle nad yw'n briodol i'r DoR gynnal yr ymchwiliad, bydd hyn yn cael ei gynnal gan aelod arall o staff, a enwebwyd gan Ymchwil ac Arloesi PV-C.
 - CAM 2: Pan ystyrir bod achos prima facie yn bodoli, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at PV-C Ymchwil ac Arloesi a allai gymryd camau gweithredu ar unwaith neu a allai ysgogi ymchwiliad pellach i'r honiad. Os oes angen ymchwiliad pellach, byddant yn cael eu cynnal gan naill ai PV-C Ymchwil ac Arloesi neu gan unigolyn priodol a benodir gan PV-C Ymchwil ac Arloesi.
- 3.3 Gellir dod o hyd i'r fersiwn gyfredol o'r Polisi Camymddwyn Ymchwil ar [Hyb Polisi Met Caerdydd](#). Caiff y polisi ei adolygu yn ystod blwyddyn academiaidd 2024/25.

4. Datganiad ar unrhyw ymchwiliad ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gynhaliwyd

- 4.1 Ni dderbyniwyd unrhyw honiadau o dan Weithdrefn Camymddwyn Ymchwil y Brifysgol yn ystod 2023/24.